ColegauCymru
CollegesWales

Yn codi proffil addysg bellach
Raising the profile of further education

newyddion Cymraeg ColegauCymru #194
07 Medi 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi Cysylltwch.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.

Do please let us know if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Arloesedd Colegau

System Adnoddau Dynol arloesol yn ennill gwobr genedlaethol

Mae system adnoddau dynol arloesol sydd wedi arbed amser ac arian i Goleg Gŵyr Abertawe wedi ennill gwobr genedlaethol nodedig gan HR Magazine.
Enillodd y system 'All About Me/All About My Staff' wobr am y Defnydd Mwyaf Arloesol o Dechnoleg Adnoddau Dynol yn seremoni Gwobrau Rhagoriaeth Adnoddau Dynol 2015 yn Llundain, gan guro cystadleuaeth gref gan gwmnïau mawr cenedlaethol a rhynglwadol fel Santander, Monster a Chymdeithas Adeiladu Nationwide.
Mwy>>>

Darlithwyr mewn Ffotograffiaeth i ymgymryd â phrosiect ymchwil

Mae dau ffotograffydd sy'n darlithio ar raglenni gradd yn Ysgol y Celfyddydau Creadigol yng Ngholeg Sir Gâr wedi ennill cyllid i gynnal
prosiect ymchwil mewn ffotograffiaeth.
Mwy>>>

Dilyniant Dysgwyr

Myfyrwyr yn graddio gyda swyddi yn un o glybiau'r uwch gynghrair

Mae dau fyfyriwr gradd chwaraeon wedi cael cynnig swyddi rhan-amser gyda chlwb pêl-droed o'r uwch gynghrair yn dilyn eu lleoliad gwaith ar eu cwrs gradd yng Ngholeg Sir Gâr
Mwy>>>

Llwybr galwedigaethol i brifysgol

Mae'r llwybrau a gymerwyd gan dair myfyrwaig galwedigaethol o Goleg y Cymoedd eleni yn cynnwys ysgoloriaeth chwaraeon, gradd Grŵp Russell a gyrfa mewn marchnata.
Mwy>>>

Llwyddiant Dysgwyr

Anrhydeddu Tri Chymro yn WorldSkills Brasil

Dychwelodd tri Chymro talentog o'r gystadleuaeth WorldSkills ym Mrasil gydag anrhydedd ar ôl cynrychioli tîm y DU.
Mwy>>>
Mwy ar Eleni Constantinou gan Goleg Sir Gâr
Mwy ar Owain Jones gan Grŵp Llandrillo Menai

Myfyrwyr yn Ennill Gwobrau Lu mewn Cystadleuaeth Fioleg Genedlaethol

Enwyd chwe myfyriwr sy'n dilyn cyrsiau Lefel A a'r Fagloriaeth Ryngwladol yng Ngrŵp Llandrillo Menai yn rhai o fyfyrwyr Bioleg gorau Prydain ar ôl iddynt dderbyn medalau a chymeradwyaeth mewn cystadleuaeth fioleg genedlaethol, Olympiad Bioleg Prydain 2014-15.
Mwy>>>

Gwobrwyo myfyrwyr Safon Uwch gorau ar wasanaethau rhyngrwyd

Mae Netcraft, cwmni sy'n noddi gwobrau academaidd mewn partneriaeth ag ystod eang o brifysgolion mawreddog, ar fin dyfarnu dau ddysgwyr cyfrifiaduro Safon Uwch o Grŵp NPTC Castell-nedd, Ashley Davis-Lyons a Joshua Williams. Roeddent ymhlith yr ugain o ymgeiswyr berfformiodd orau yn arholiad Cyfrifiaduro CBAC yr haf hwn.
Byddant yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn diwrnod astudio arbenigol gan gynnwys sgyrsiau ac arddangosiadau ymarferol ar waith yn y gwasanaethau rhyngrwyd.
Mwy>>>

Cydnabod Ymgyrch Undeb Myfyrwyr gyda Gwobr DU

Mae ymgyrch Undeb y Myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai ar gludiant myfyrwyr wedi cael ei gydnabod gyda gwobr yng Ngwobrau y DU Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) 2015.
Mwy>>>

Myfyrwraig Celf yn ennill Ysgoloriaeth Artist Ifanc yr Eisteddfod Genedlaethol

Mae myfyrwraig celf gradd sylfaen yng Ngholeg Sir Gâr wedi ennill Ysgoloriaeth Artist Ifanc yr Eisteddfod Genedlaethol ar ôl curo cystadleuaeth oddi wrth fyfyrwyr gradd a graddau meistr.
Mwy>>>

Cystadleuaeth Arlwyo Cymru i Fyfyrwyr Lletygarwch

Yn y gystadleuaeth gyntaf o'i math, dyfarnwyd gwobrau ciniawa i fyfyrwyr lletygarwch yn y Drenewydd yn ddiweddar, wedi i ddeg tîm o fyfyrwyr o golegau ledled Cymru greu bwyd o gynnyrch lleol.
Yn ennill aur oedd tîm o Goleg Sir Gâr, aeth arian i dîm Grŵp Llandrillo Menai o Goleg Llandrillo, ac aeth efydd i Gampws Drenewydd Grŵp NPTC.
Mwy>>>

Colegau yn eu Cymunedau

Coleg Caerdydd a'r Fro a'r Celtic Manor yn dod at ei gilydd i gynnig croeso dros Gwpan Rygbi'r Byd

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn gweithio gyda'r Celtic Manor i gynnig croeso yng nghalon y brifddinas yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd yr hydref yma.
Mwy>>>

Hyfforddiant taenellu tân

Mae deddfwriaeth newydd i Gymru yn gofyn ar eiddo newydd i gael system llethu tân wedi'u gosod, ac mae Grŵp o Golegau NPTC wedi bod yn helpu i baratoi dros 60 o gwmnïau drwy gynnal sesiynau hyfforddiant arbenigol ar y rheoliadau newydd.
Mwy>>>

Cadw gwenyn ar gyfer cynaliadwyedd

Yn dilyn hyfforddiant arbenigol i staff ar gadw gwenyn cynaliadwy, mae Parth Ddysgu Blaenau Gwent wedi dod yn gartref i dros 15,000 o wenyn fel rhan o'r prosiect Peillio am Oes.
Mae'r prosiect, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn anelu at roi hwb i fioamrywiaeth leol ar gyfer cymunedau ac ailgysylltu pobl â natur.
Mwy>>>

Entrepreneur o'r rhaglen Dragon's Den yn cefnogi cwrs menter

Mae myfyrwyr menter yng Ngholeg Sir Gâr wedi bod yn brysur yn cynnig eu syniadau busnes ac yn eu rhoi ar waith ar gwrs diploma'r coleg.
Mwy>>>

Cyfleoedd Dysgu

Dysgu Olympaidd

Bu Canolfan Hyfforddi Olympaidd yn rhan o'r ymweliad astudio i'r UDA a wnaed gan ddysgwyr o gwrs gradd Coleg Sir Gâr mewn hyfforddi a pherfformiad chwaraeon yn ddiweddar.
Mwy>>>

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB